| PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION |
| **DYDDIAD:** | 26 MAWRTH 2020 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DIRPRWYAETH I'R PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I DDIRPRWYO I'R PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO HAWLIAU'R PWYLLGOR I WNEUD PENDERFYNIADAU DROS GYFNOD PLA COVID-19 |
| **ADRODDIAD GAN:** | CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR)/SWYDDOG MONITRO A |
| **GWEITHREDU:** | PENDERFYNIAD I DDIRPRWYO PENDERFYNIADAU DROS GYFNOD PENODEDIG |

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Yn sgîl yr argyfwng iechyd cyhoeddus a achosir gan y coronafeirws ac yn rhagweld y cyfyngiadau ar gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mi fydd dal angen ceisio cynnal y gwasanaeth cynllunio a gwneud penderfyniadau ar faterion cynllunio. I hwyluso hyn yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau, gwahoddir y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) i wneud y penderyniadau islaw.

2. ARGYMHELLION

2.1 I ddirprwyo i Brif Swyddog Cynllunio y Cyngor yr hawl i wneud yr holl benderfyniadau sydd wedi eu neilltuo i'r Pwyllgor o dan Gyfansoddiad y Cyngor, bo hyn unai o dan baragraffau 3.4.3.1 i 3.4.3.16 (yn gynnwysedig) neu yn rhywle arall;

2.2 Bod y dirprwyiaeth i aros mewn grym tra bod y cyfyngiadau yn parhau mewn grym ond ei fod yn diweddu yn awtomatig unwaith mae cyngor Llywodraeth Cymru yn caniatau y gellir cynnal cyfarfodydd cyhoeddus megis y Pwyllgor;

2.3 Bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn cael eu hysbysebu yn amserol o unrhyw benderfyniadau a wneir o dan y dirprwyiaeth yma.

2.4 Bod sesiwn hyfforddiant i'w drefnu cyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor er mwyn i aelodau a swyddogion gael ail-ymgyfarwyddo eu hunain efo trefn y Pwyllgor a'r gofynion perthnasol.